

# Effaith ar ddiwedd ar eithrio o 6 Ebrill 2016



Adran Gwaith  
a Phensiynau

## Newidiadau pwysig ar gyfer ymddiriedolwyr

### Beth sydd wedi digwydd?

Mae Pensiwn y Wladwriaeth wedi newid ar gyfer pobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016. Bydd y newid hwn yn helpu pobl ddeall yn glir beth fyddant yn cael o'u Pensiwn y Wladwriaeth i'w helpu i gynllunio tuag at eu hymddeoliad.

Os yw gweithiwr yn aelod o bensiwn gweithle'n berthnasol i incwm, maent yn debygol o fod wedi eithrio o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth. Bydd pobl sydd wedi eithrio, a'u cyflogwyr wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfradd is (a elwir hefyd yn ad-daliad "Yswiriant Gwladol"). Bydd tri chwarter o bobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn y ddau ddegawd cyntaf o'r Pensiwn newydd y Wladwriaeth wedi eithrio ar ryw amser.

Mae Pensiwn newydd y Wladwriaeth wedi disodli Pensiwn sylfaenol ac ychwanegol y Wladwriaeth ar gyfer pobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth o 6 Ebrill 2016. Daeth eithrio ac eithrio ad-daliad Yswiriant Gwladol i ben ar y dyddiad hwnnw.

### Beth mae hyn yn ei olygu

O ganlyniad:

- Drwy ddefnyddio pwerau yn y Ddeddf Pensiynau 2014 gall cyflogwyr sector breifat sy'n noddi'r cynlluniau hyn wneud newidiadau unochrog, cyfyngedig i fuddion a chyfraniadau aelodau yn y dyfodol i helpu i wrthbwysu'r cynnydd yn eu cyfraniadau Yswiriant Gwladol.
- Bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn rhoi'r gorau i olrhain pa gynlluniau sy'n dal buddion eithrio unigolion ond, hyd at mis Rhagfyr 2018, yn gweithio gydag Ymddiriedolwyr i gysoni aelodaeth cynllun.
- Gan ddechrau ym mis Rhagfyr 2018, bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn darparu aelodau gyda manylion o'u haelodaeth cynllun eithrio.

**Mae gan ymddiriedolwyr tan fis Ebrill 2018 i gymodi aelodaeth cynllun a sicrhau fod data eithrio, er enghraifft y swm o'r Pensiwn Lleiafswm Gwarantedig, yr un fath â data Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.**

### Gwybodaeth bellach

Cewch hyd i fwy o wybodaeth yn:

**[www.gov.uk/government/publications/new-state-pension-information-for-employers-and-trustees-with-open-contracted-out-defined-benefit-pension-schemes](http://www.gov.uk/government/publications/new-state-pension-information-for-employers-and-trustees-with-open-contracted-out-defined-benefit-pension-schemes)**

Bwletin Cyfri Iawr:

**[www.gov.uk/government/collections/national-insurance-services-to-pensions-industry-countdown-bulletins](http://www.gov.uk/government/collections/national-insurance-services-to-pensions-industry-countdown-bulletins)**



Cyllid &  
Thollau EM